

## COMISIWN Y GYFRAITH

### DIWYGIO CAMYMDDWYN MEWN SWYDD GYHOEDDUS: TROSOLWG

Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad o drosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Ein hamcanion wrth ddiwygio yw penderfynu a ddylid cael gwared ar y drosedd bresennol sef camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, neu a ddylid ei chadw, ei hailddatgan neu ei diwygio, gan ganlyn pa gynllun diwygio bynnag y penderfynir ei fabwysiadu.

*Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus: Materion Papur 1 – y gyfraith bresennol* ("y papur cefndir") oedd y ddogfen gyntaf i'w chyhoeddi fel rhan o'r prosiect hwn. Roedd y papur hwnnw yn cychwyn cam cyntaf y broses ymgynghori.

Roedd y papur cefndir yn nodi'r gyfraith bresennol ynghylch camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, gan amlygu'r problemau sy'n codi o ganlyniad i ansicrwydd, yn ogystal â bylchau ac enghreifftiau o orgyffwrdd gyda throeddau amgen. Roedd yn gofyn nifer o gwestiynau i ymgynghoreion, yr oeddent yn ceisio casglu tystiolaeth bellach ynghylch y problemau sy'n bodoli eisoes a graddau'r problemau hynny. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus am y papur cefndir i ben ar 20 Mawrth 2016.

Mae'n Papur Ymgynghori, *Diwygio Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus*, yn cychwyn ail gam y gweithgarwch ymgynghori, gan nodi dewisiadau ar gyfer yr hyn y dylai'r gyfraith ym maes camddefnyddio swydd gyhoeddus fod. Bydd yr ymgynghoriad yn para tri mis, ac yn dod i ben ar **28 Tachwedd 2016**.

Mae modd gweld y Papur Ymgynghori a'r papur cefndir, ynghyd ag atodiadau a chrynodebau cyfatebol (gan gynnwys fersiynau Cymraeg o'r crynodebau a'r trosolygon) ar-lein trwy droi at: <http://www.lawcom.gov.uk/project/misconduct-in-public-office/>. Cyhoeddir ein hadroddiad terfynol yn 2017.

#### Y drosedd a'i phroblemau

Mae camymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn drosedd dan y gyfraith gyffredin: ni chaiff ei diffinio mewn unrhyw statud. Y ddedfryd fwyaf y gellir ei rhoi am ei chyflawni yw carchar am oes. Mae'r drosedd yn gofyn bod: swyddog cyhoeddus sy'n gweithredu yn y fath fodd; yn fwriadol esgeuluso cyflawni ei ddyletswydd a/neu yn fwriadol gamymddwyn ei hun; i'r fath raddau fel ei fod yn camddefnyddio ymddiriedaeth y cyhoedd yn neiliad y swydd; heb esgus neu gyfiawnhad rhesymol.

Y farn gyffredinol yw bod y drosedd yn amwys ac fe'i beirniadwyd gan y Llywodraeth, y Llys Apêl, y wasg ac academyddion cyfreithiol yn ddiweddar. Mae ystadegau'n awgrymu bod mwy o bobl yn cael eu cyhuddo o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus, ond mae llai o'r cyhuddiadau hyn yn arwain at gollfarnau. Un rheswm posibl yw bod y ffaith nad oes diffiniad eglur yn bodoli o'r drosedd yn golygu ei bod yn anodd ei gweithredu. Yn y papur cefndir, nodom nifer o broblemau penodol gyda'r drosedd.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgynghoreion hynny a ymatebodd i'r papur cefndir yn cytuno gyda ni fod angen diwygio'r gyfraith er mwyn sicrhau bod swyddogion cyhoeddus yn atebol mewn ffordd briodol am gamymddygiad a gyflawnir mewn perthynas â'u dyletswyddau swyddogol. Yn ogystal, nododd ymgynghoreion bod ein hadolygiad o'r gyfraith a'i phroblemau yn un cynhwysfawr.

### **Dewisiadau er mwyn diwygio'r gyfraith**

Mae'r problemau a nodwyd gyda'r gyfraith bresennol yn dangos mewn ffordd eglur na fyddai'n ddymunol cadw'r drosedd bresennol neu geisio'i chodeiddio mewn statud. Felly, mae'r holl ddewisiadau yn y Papur Ymgynghori yn cymryd y bydd trosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus y gyfraith gyffredin yn cael ei gwaredu.

Y mater sylfaenol sy'n dwyn ynghyd y problemau a welir gyda'r drosedd bresennol yw nad yw hi'n eglur pa ddygioni y mae'r drosedd bresennol yn ei dargedu, ac felly, pa fath o drosedd yw hon i fod. Ar yr olwg gyntaf, ceir tri esboniad posibl dros y drosedd bresennol: camddefnyddio swydd er mwyn cael mantais bersonol, cam-lywodraethu a thorri ymddiriedaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw rai o'r esboniadau hyn yn rhoi cyfrif llawn o'r drosedd ar eu pen eu hunain. Yn yr un modd, nid oes unrhyw rai o'r rhesymegau a nodwyd wedi cael eu diffinio mewn ffordd ddigon eglur er mwyn gallu seilio elfennau trosedd newydd arnynt. Y drwg sy'n dod agosaf i esbonio'r drosedd bresennol yw *torri ymddiriedaeth y cyhoedd*.

Yn y Papur Ymgynghori, rydym yn profi'r casgliad hwn trwy ystyried y pum categori camymddygiad y maent yn aml yn cael eu herlyn gan ddefnyddio'r drosedd hon, yn ôl y papur cefndir, gan nad oes unrhyw drosedd arall yn berthnasol iddynt. Rydym yn dod i'r casgliad pellach bod dau brif fath o ddrwg y maent yn haeddu cael eu hystyried at ddibenion trosedd neu droseddau diwygiedig: torri dyletswydd sy'n arwain at risg niwed difrifol ac ymddygiad llwgr, gan gynnwys camddefnyddio swydd er mwyn cael mantais bersonol neu er mwyn peri niwed i rywun arall.

At ddibenion llunio unrhyw drosedd neu droseddau er mwyn disodli camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, mae angen i ni lunio diffiniad mwy trylwyr o swydd gyhoeddus. Mae'r diffiniad amwys presennol yn broblem fawr gyda'r drosedd bresennol. Yn y Papur Ymgynghori, rydym yn trafod pedwar dull posibl o ddiffinio swydd gyhoeddus. Bydd angen i unrhyw drosedd newydd fod yn seiliedig ar y cysyniad, fodd bynnag ni fydd angen i bob trosedd newydd fod yn berthnasol i holl ddeiliaid swyddi cyhoeddus. Efallai mai dim ond i is-set o ddeiliaid swydd gyhoeddus y bydd angen i fathau penodol o drosedd newydd fod yn berthnasol iddynt.

Rydym yn cynnig dwy drosedd newydd bosibl er mwyn disodli'r drosedd bresennol sef camymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Mae Dewis 1 yn ymwneud â throedd newydd sy'n rhoi sylw i achosion o dorri dyletswydd sy'n peri risg y bydd rhywun yn dioddef niwed difrifol, pan fydd yn cael ei chyflawni gan ddeiliaid swyddi cyhoeddus penodol (y rhai y mae ganddynt ddyletswyddau sy'n ymwneud ag atal niwed). Mae Dewis 2 yn ymwneud â throedd newydd sy'n rhoi sylw i ymddygiad llwgr gan holl ddeiliaid swyddi cyhoeddus. Mae Dewisiadau 1 a 2 yn ddewisiadau ar wahân, ond maent yn cyd-fynd. Hynny yw, byddai modd gweithredu Dewis 1 ar ei ben ei hun, Dewis 2 ar ei ben ei hun neu'r ddau ohonynt gyda'i gilydd.

Mae Dewis 3 er mwyn diwygio'r gyfraith yn golygu cael gwared ar y gyfraith bresennol heb ei disodli. Ar yr adeg hon, byddai diwygiad o'r natur hwn yn debygol o adael bylchau annerbyniol yn y gyfraith yn ein barn ni.

Ar ddiwedd y Papur Ymgynghori, rydym yn trafod dau ddiwygiad cyfreithiol posibl arall, y gallent gyd-fynd ag unrhyw un o'r Dewisiadau, sef dewis 1, 2 neu 3. Codwyd y ddau bosibilrwydd gan ein hymgyngoreion yn ystod cam cyntaf y gwaith ymgynghori. Mae'r cyntaf yn ymwneud â diwygio'r gyfundrefn troseddau rhywiol. Mae'r ail yn ymwneud â thrin y ffaith bod diffynnydd yn swyddog cyhoeddus fel ffactor gwaethybol at ddibenion dedfrydu eu hymddygiad troseddol.